# YR WYLAN

MEDI 2015



Dysgwyr yn llwyddo
Llongyfarchiadau calonnog i Adam Ma
ar lwyddo i basio ei arholiad TGAU
gydag A*. Daeth Adam i fyw i
Iwerddon pan oedd ym Mlwyddyn 8
Adam wyth wythnos yng Nghar
Uwchradd Gwynedd gyda Mrs. C
Miss. Cari Lewis a gwnaeth ga
yno. Cymaint oedd datblygiad A
penderfynwyd y dylai ymgeisi
cwrs
Mlwy
gamp
hyn
ar
Ma
yr
id






harholiadau TGAU
Gymraeg yw Holly Ha
y ddau i fyw yng N
ddisgyblion Blwydd
o America. Yn union
gyfnod yng Ngh
Gwynedd gan dd
Gymraeg. Llongy
phob dymuniad


## Dysgwyr yn llwyddo

Llongyfarchiadau calonnog i Adam Mandeville ar lwyddo i basio ei arholiad TGAU Cymraeg gydag A*. Daeth Adam i fyw i Gymru o Iwerddon pan oedd ym Mlwyddyn 8. Treuliodd Adam wyth wythnos yng Nghanolfan Iaith Uwchradd Gwynedd gyda Mrs. Carys Lake a Miss. Cari Lewis a gwnaeth gamau breision yno. Cymaint oedd datblygiad Adam yno fel y penderfynwyd y dylai ymgeisio i gwblhau y



cwrs Ail Iaith ym Mlwyddyn 9. Tipyn o gamp yn wir! Erbyn hyn mae yn dechrau ar gwrs Cymraeg Mamiaith ac rydym yn dymuno'r gorau iddo.

Dau ddysgwr arall sydd wedi llwyddo'n rhagorol yn eu harholiadau TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yw Holly Hawes a Tudor Jones. Daeth y ddau i fyw yng Nghymru pan oeddynt yn ddisgyblion Blwyddyn 8, y naill o Loegr a'r llall o America. Yn union fel Adam treuliodd y ddau gyfnod yng Nghanolfan Iaith Uwchradd Gwynedd gan ddod oddi yno yn rhugl yn y Gymraeg. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau a phob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

YSGOL
EIFIONYDD